# Gwerthusiad o'r WICKED Project

ymgynghoriaeth wavehill consulting

Adroddiad ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Thir Coed

**Crynodeb Gweithredol**

## Cyflwyniad

Dyma grynodeb gweithredol o werthusiad annibynnol a gynhaliwyd gan ymgynghoriaeth Wavehill o Fentrau Coetir rhwng Awst a Hydref 2009: Catalydd ar gyfer Addysg a Datblygiad Plant, sef prosiect WICKED (*Woodland Initiatives: A Catalyst for Kids Education & Development).*

Mae WICKED yn brosiect peilot cyfredol sy'n rhedeg am dair blynedd, o fis Mawrth 2007 hyd ddiwedd mis Mawrth 2010. Mae'n datblygu mentrau a leolwyd mewn coetiroedd, ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 ac 19 oed, sydd wedi dieithrio ac o dan anfantais gymdeithasol, sy'n byw yn siroedd Ceredigion, Powys, Caerfyrddin a Phenfro. Yn ogystal, mae'r prosiect yn ceisio hyrwyddo'r coetir fel lleoliad ar gyfer datblygu addysg a sgiliau pobl ifanc. Fe'u cyflwynir gan *Dir Coed*, elusen gofrestredig a sefydlwyd ym 1999 fel cynghrair o asiantaethau cefn gwlad yng Nghymru.

Mae WICKED yn cynnwys tri chynllun gwahanol sy'n targedu grwpiau penodol o bobl ifanc:

1. *Cynllun Mes*: prosiect gweithgaredd sy'n cynnig seibiant ar gyfer gofalwyr ifanc ond gyda gweithwyr cynnal yn cael y cyfle i fynychu, fel y gallant drosglwyddo'r sgiliau i bobl ifanc dros y tymor hir.
2. *Cynllun Coed Call*: darparu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer rhai rhwng 14 ac 16 oed sydd heb lwyddo o fewn amgylchedd ffurfiol ysgol.
3. *Cynllun Gweithio'r Goedwig*: hyfforddiant yn seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed, sy'n ddi-waith ac nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant ar hyn o bryd (h.y. rheiny sy'n syrthio i gategori NEET).

Yn achos y tri chynllun, mae Tir Coed yn nodi safleoedd coetir mewn lleoliadau addas, hyfforddwyr cymwys ac yn cynorthwyo â chostau sefydlu, gan gynnwys isadeiledd y safle a chyda deunyddiau. Mae achrediadau Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN) yn cael eu cyflwyno, fel bo'n briodol. Yn ogystal, mae Tir Coed yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cynnal o fewn sefydliadau partner (e.e. Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol) mewn sgiliau ymarferol perthnasol, fel gwaith coed gwyrdd ac adeiladu a sut i drosglwyddo'r sgiliau hyn i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio.

## Prif ganfyddiadau'r gwerthusiad

Mae'r gwerthusiad wedi dod i'r penderfyniad bod prosiect WICKED wedi cyflawni ei amcanion o ran:

a) Cael effaith gadarnhaol ar y bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau; a mewn
b) Hyrwyddo'r coetiroedd fel safle ar gyfer datblygu addysg a sgiliau pobl ifanc.

Mae'r adborth a roddwyd i'r tîm gwerthuso ar bob un o'r cynlluniau – gan y rhai hynny a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r cymorth, sefydliadau partner *a* budd-ddeiliaid – wedi bod yn gadarnhaol dros ben, felly hefyd y sylwadau o ran yr angen cyfredol am y gefnogaeth a ddarparwyd gan y prosiect.

Fodd bynnag, mae angen datblygu'r prosesau sydd yn eu lle ymhellach ar gyfer monitro canlyniadau ac allbynnau'r cymorth a ddarparwyd. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn gan fod darparu tystiolaeth am yr effaith mae'r gefnogaeth wedi ei chael ar bobl ifanc yn hollol hanfodol o ran darbwyllo partneriaid cyflenwi amheugar am werth y cymorth y gellir ei ddarparu yn y coetiroedd.

## Cynnyrch a chanlyniadau'r prosiect

Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, roedd 432 o bobl ifanc wedi cymryd rhan ym mhrosiect WICKED. Roedd y mwyafrif ohonynt (54%: 233/432) ynghlwm wrth elfen Mes y prosiect gyda 25% (108/432) yn cymryd rhan ym menter Coed Call a 21% (89/432) yng Ngweithio'r Goedwig.

Mae'r data rheolaeth sydd gan Dir Coed yn dangos bod pobl ifanc, ar y cyfan, wedi cynnig adborth cadarnhaol iawn o ran y cymorth a ddarparwyd gan bob menter WICKED; mae'n amlwg bod pobl ifanc wedi mwynhau'r profiad yn gyffredinol. Yn ogystal, dengys y data bod y mwyafrif o gyfranogion Gweithio'r Goedwig (46/89) wedi symud ymlaen at hyfforddiant pellach neu waith cyflogedig. Fodd bynnag, nid yw'r un data ar gael ar gyfer Coed Call oherwydd y modd y rheolwyd yr elfen honno (a'r Mes) o'r prosiect; cyfeirir pobl ifanc at y prosiect gan amrywiaeth o sefydliadau partner (gan gynnwys ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol a Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc) sy'n golygu nad yw Tir Coed yn cadw cronfa ddata gynhwysfawr o'r bobl ifanc hynny a dderbyniodd cymorth er mwyn diogelu cyfrinachedd.

Casglwyd tystiolaeth am ganlyniadau'r cymorth a ddarparwyd gan WICKED drwy gynnal nifer fechan o gyfweliadau dros y ffôn â phobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect, roedd y nifer fwyaf ohonynt wedi cymryd rhan yng Ngweithio'r Goedwig (10 allan o'r 12). Roedd y fethodoleg wreiddiol ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys mwy o gyfweliadau ag ystod ehangach o gyfranogion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl oherwydd y nifer cyfyngedig o gysylltiadau roedd Tir Coed a'r sefydliadau

partner yn gallu eu darparu. Er mwyn gwneud yn iawn am hyn, rhoddwyd mwy o bwyslais ar gyfweliadau a chasglu gwybodaeth oddi wrth weithwyr ieuenctid ac eraill a fu'n ynghlwm yn uniongyrchol â darparu cymorth ar gyfer y bobl ifanc. Roeddent yn gallu cynnig cyfoeth o wybodaeth ynglŷn â'r modd y darparwyd cymorth a'r effaith a gafodd ar y bobl ifanc. Yn ogystal, mynychodd ymchwilydd Wavehill ddau ddigwyddiad WICKED (digwyddiad *Mes* a digwyddiad *Coed Call*) pryd y cafodd gyfle i arsylwi ar weithgareddau'r bobl ifanc a chynnal trafodaethau anffurfiol gyda nhw a'r gweithwyr ieuenctid a oedd yno gyda'r bobl ifanc.

Yn ddiweddar cynhaliwyd ymchwil, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu model ar gyfer mesur effaith ehangach y cymorth ar bobl ifanc mewn modd cyson. Craidd y model *Arddangos Llwyddiant/Demonstrating Success*[1] yw'r syniad y gall pobl ifanc ennill sgiliau drwy dderbyn gwasanaethau a chymorth, ac yn aml nid yw'r llwyddiannau hyn yn cael eu cofnodi gan ddangosyddion (caled) mwy traddodiadol fel cymwysterau. Mae'n nodi pedwar prif grŵp o agweddau a sgiliau y gellir eu gweld pan mae pobl ifanc yn gwneud cynnydd; rhyngweithio, parch at eraill, cymhelliant a chyfranogiad gweithredol ac annibyniaeth. Er bod y samplau yn fach, roedd y data a gasglwyd oddi wrth y bobl ifanc (12) a'r darparwyr cymorth (22) yn awgrymu bod y gweithgareddau a gefnogwyd gan WICKED wedi cael effaith ar gymhelliant y bobl ifanc. Tanlinellodd darparwyr cymorth yr effaith ar ysgogiad person ifanc a'u cyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau yn enwedig.

Mae'r cyfweliadau gyda'r bobl ifanc yn awgrymu bod elfen *Gweithio'r Goedwig* y prosiect wedi cynyddu diddordeb pobl ifanc mewn gwaith cyflogedig yn y coetir. Yn ogystal, cofnododd rhai o staff Tir Coed bod rhai o'r cyfranogion wedi symud ymlaen at waith cyflogedig sy'n gysylltiedig â choetir gan ddweud bod hyn o ganlyniad i'w cyfranogiad yn WICKED.

Roedd y darparwyr cymorth yn gadarn eu barn bod pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'r coetir lleol a'r hyn y gallent gynnig o ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd gan WICKED. Fodd bynnag, mae sylwadau'r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn awgrymu nad yw WICKED wedi arwain at newid arwyddocaol o ran cysondeb ymweliadau'r buddiolwyr â'r coetiroedd. Roedd y rhai hynny a oedd yn ymweld â'r coetiroedd yn rheolaidd cyn eu hymrwymiad â WICKED yn parhau i wneud felly, ac i'r gwrthwyneb.

Mae'n bwysig cofnodi bod y gwerthusiad wedi canfod gwendidau arwyddocaol yn y broses a ddefnyddiwyd gan Dir Coed i fonitro canlyniadau a chynnyrch prosiect WICKED. Mae hyn wedi cyfyngu ar ddefnyddioldeb y data a gasglwyd ac mae angen mynd i'r afael â hyn fel rhan o unrhyw ddatblygiad o'r prosiect yn y dyfodol.

[1] http://demonstratingsuccess.co.uk/site/

## Hyrwyddo coetiroedd fel man cyfarfod ar gyfer datblygu addysg a sgiliau pobl ifanc.

Yn ogystal â darparu cymorth ar gyfer pobl ifanc, un o amcanion y prosiect WICKED oedd hyrwyddo coetiroedd fel safle ar gyfer datblygu addysg a sgiliau pobl ifanc. Mae hyfforddi gweithwyr cymorth mewn gweithgareddau coetir hefyd yn agwedd allweddol o'r prosiect ac yn rhan hanfodol o strategaeth ymadael y prosiect – hyfforddir swyddogion cymorth i ddarparu cymorth ar gyfer y bobl ifanc sy'n gweithio yn amgylchedd coetir ar sail barhaus, tu hwnt i hyd oes prosiect WICKED

P'un ai oeddent wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol neu beidio, canfu gweithwyr cymorth eu bod wedi datblygu sgiliau newydd drwy eu hymrwymiad â'r prosiect. Rhoddwyd amrywiaeth o sgiliau newydd fel enghreifftiau, y mwyafrif ohonynt yn berthnasol i 'sgiliau coetir'. Fodd bynnag, cofnododd rhai 'ddysgu' arall gan gynnwys eu gallu i gyfathrebu â phobl ifanc; sgiliau a allai yn y pen draw wella'r cymorth y gallant ei gynnig i bobl ifanc yn gyffredinol.

Mae'n amlwg y gellir rhannu'r gweithwyr cymorth hynny sy'n ymwneud â WICKED, i ddau grŵp. Mae'n amlwg bod nifer ohonynt yn 'hyrwyddwyr' o'r cymorth a ddarperir gan WICKED, ac o'r rôl y gall coetiroedd eu chwarae mewn gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, mae hefyd ail grŵp sydd wedi newid eu barn yn *gadarnhaol* o ran rôl coetir yng ngwaith ieuenctid oherwydd eu hymrwymiad hwy â'r prosiect. Mae hyn yn awgrymu bod WICKED wedi profi ei hun yn fecanwaith effeithiol o ran hyrwyddo coetiroedd fel man cyfarfod ar gyfer datblygu addysg a sgiliau pobl ifanc. Dywedodd *pob un* o'r gweithwyr ieuenctid a gafodd eu cyfweld eu bod yn debygol o ddefnyddio coetir fel adnodd ar gyfer gwaith ieuenctid yn y dyfodol, gyda'r mwyafrif yn dweud y byddent yn 'bendant' yn gwneud hynny.

## Rheoli a darparu'r prosiect

Y ffordd orau i ddisgrifio rôl Tir Coed (o safbwynt pob un o'r tair menter) yw fel *hwylusydd*; gan ddod â'r tair agwedd sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu pob menter at ei gilydd:

- **Pobl ifanc** – mae Tir Coed yn gweithio gyda sefydliadau partner amrywiol i ganfod (a 'recriwtio') y bobl ifanc hynny y gellir eu cynorthwyo drwy'r prosiect;
- **Arbenigwyr** (neu 'tiwtoriaid') – mae Tir Coed wedi nodi a chytundebu'r rhai hynny sy'n gallu darparu cymorth arbenigol i bobl ifanc yn y coetiroedd; a
- **Safleoedd** – mae Tir Coed wedi nodi ac ariannu 'sefydlu'r' coetiroedd hynny lle y gellir darparu cymorth.

Felly, bu'n hanfodol datblygu perthnasau gwaith da gyda phartneriaid ac yn ôl darganfyddiadau'r gwerthusiad roedd hyn yn un o brif gryfderau Tir Coed.

Defnyddiwyd dwy broses wahanol i recriwtio pobl ifanc ar gyfer cymryd rhan yn y prosiect. Yn y dull seiliedig ar 'grŵp' mae pobl ifanc yn cael eu recriwtio drwy'r

partneriaid cyflenwi. Yn yr achos hwn mae'r partneriaid yn darparu grŵp o bobl ifanc sydd wedyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Defnyddiwyd y broses hon gan *Mes* a *Choed Call*. Mae'r dull 'unigol' yn golygu bod partneriaid unigol yn cael eu recriwtio gan Dir Coed o amrywiaeth o ffynonellau fel Gyrfaoedd Cymru a'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc; defnyddiwyd y dull hwn yn bennaf ar gyfer *Gweithio'r Goedwig*.

Mae gan y ddau ddull eu manteision. Fodd bynnag, mae dull seiliedig ar grŵp yn mynd i fod yn fwy cost effeithiol bob tro oherwydd y ffaith eu bod yn debygol y bydd angen llai o adnodd (amser staff); mae'n cymryd llawer mwy o amser i recriwtio pobl ifanc yn unigol nag yw fel grŵp drwy bartner cyflenwi. Bydd gweithio drwy bartneriaid cyflenwi hefyd yn hyrwyddo'r coetiroedd fel man cyfarfod ar gyfer datblygu addysg a sgiliau pobl ifanc, amcan allweddol i brosiect WICKED.

Mae WICKED a'u mentrau unigol yn torri lawr i'r hyn sydd, yn effeithiol, yn nifer o 'is-brosiectau' annibynnol a ddatblygwyd gan Dir Coed â phartneriaid gwahanol ar sail anghenion penodol pob partner. Bu'r hyblygrwydd hwn yn hanfodol o ran llwyddiant y prosiect gan iddo ganiatáu i Dir Coed ymateb i anghenion pob partner unigol. Ym marn y tîm gwerthuso, yr allwedd i lwyddiant cyflwyno prosiect WICKED i rannau eraill o Gymru fyddai hyblygrwydd y cynllun. Yn ogystal, byddai angen datblygu perthnasoedd gwaith da gyda'r partneriaid cyflenwi.

Mae trafodaethau gyda thîm Tir Coed yn awgrymu mai 'amheuaeth' oedd un o'r rhesymau na ddatblygwyd eu perthynas gyda rhai sefydliadau mor bell ag y gobeithiwyd. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod barn rhai o'r darparwyr cymorth wedi newid yn awgrymu bod y prosiect yn cyrraedd ei amcan o arddangos gwerth coetiroedd fel man cyfarfod ar gyfer darparu cymorth i bobl ifanc. Fodd bynnag, un o'r prif wersi a ddysgwyd o'r peilot oedd bod hyn yn cymryd amser ac adnoddau, pethau sydd rhaid eu cael os yw cyflwyno a'r prosiect i lwyddo. Yn ogystal, mae angen casglu tystiolaeth sy'n arddangos effaith parhad y prosiect ar y bobl ifanc sy'n cymryd rhan; felly mae angen system fonitro mwy effeithiol yn y dyfodol.

Fel arfarnwyr, byddem yn cefnogi'r cysyniad bod angen i bartneriaid Tir Coed ddangos eu hymrwymiad i'r prosiect drwy gynnig hyfforddiant sy'n seiliedig yn y coetir i'w staff, ynghyd â'r rhesymeg o ganolbwyntio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael o fewn WICKED ar weithgareddau gyda phartneriaid sy'n arddangos ymrwymiad tebyg. *Fodd bynnag,* mae'n bwysig cydnabod bod galw am ymrwymiad gan bartneriaid o bosib yn ei gwneud hi'n anodd ymrwymo rhai partneriaid, yn enwedig y rhai hynny sydd fwyaf amheus. Gall hyn gyfyngu ar allu'r prosiect i ledaenu i rannau eraill o Gymru. Yn ogystal, mae'n anochel bod hyn yn cyfyngu ar y nifer o bobl ifanc y gellir eu cynorthwyo gan y prosiect.

Yn olaf, mae'n amlwg y bu brwdfrydedd ac ymrwymiad y tîm bach a fu'n gyfrifol am gyflwyno prosiect yn allweddol i'w effeithiolrwydd. Yn ogystal, mae'n amlwg bod y prosiect wedi elwa o'r parhad sy'n deillio o'r ffaith bod yr un tîm yn gyfrifol am ddylunio'r prosiect a'u ddarparu drwyddi draw. Mae'n amlwg y byddai cynnal y parhad hwn yn fanteisiol.

## Cyweddu strategaethau a symud ymlaen

Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y gweithgareddau a gynorthwyir gan WICKED yn gallu chwarae rhan mewn cwrdd â chanlyniadau a gweithgareddau a nodwyd yn nifer o'r strategaethau allweddol yng Nghymru gan gynnwys *Coetiroedd i Gymru*, *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (y strategaeth ar gyfer lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru NEET) a'r *Strategaeth ar gyfer Gofalwyr*. Mae hyn yn cefnogi'r angen parhaus am y gweithgareddau a ariennir gan WICKED fel nodwyd gan randdeiliaid a sefydliadau partner a gafodd eu cyfweld gan y tîm gwerthuso.

Roedd *pob un* o'r 22 partner a gyfwelwyd (ar draws y tair menter) gan y tîm gwerthusol yn credu bod angen parhaus am y cymorth a ddarparwyd gan brosiect WICKED. Yn ogystal, roedd pob un o'r partneriaid yn rhagweld y byddai eu perthynas â Thir Coed yn parhau, sy'n awgrymu bod y sefydliadau a'r unigolion hynny sydd wedi ymrwymo â phrosiect WICKED yn ymroddedig iawn i'r math o gymorth sy'n cael ei ddarparu a'u bod yn debygol o barhau i weithio gyda Thir Coed petaent yn cael y cyfle.

Mae'r math o gymorth sy'n cael ei ddarparu gan WICKED yn amlwg yn berthnasol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru – mewn ardaloedd trefol yn ogystal ag ardaloedd gwledig – a bod y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu y gall y cymorth fod yn effeithiol iawn fel modd i ddenu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – sef amcan allweddol o ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn allweddol i lwyddiant unrhyw gyflwyno eang o brosiect WICKED fyddai hyblygrwydd y cynllun i gyd-fynd ag anghenion y partner cyflenwi; rhywbeth sydd yn amlwg wedi bod yn hanfodol i'w lwyddiant hyd yn hyn. Mae'n amlwg y bydd hyn yn galw am ddatblygu perthnasau gwaith da gyda'r partneriaid hyn. Un o'r prif wersi a ddysgwyd o'r peilot oedd ei bod hyn yn cymryd amser ac adnodd, pethau sydd rhaid eu cael os yw unrhyw ledaeniad o'r prosiect i lwyddo.

# Argymhellion

### Argymhelliad 1

Yng ngolau llwyddiant WICKED, argymhellir y dylid cadw'r cymorth mae'r prosiect wedi ei ddarparu ar gyfer pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Felly, dylid nodi ffynonellau ariannol eraill cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod unrhyw fwlch o ran darparu cymorth mor fyr â phosibl.

### Argymhelliad 2

Dylid ystyried y posibilrwydd o gyflwyno WICKED mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Dylai unrhyw gyflwyniad tebyg fod yn raddol, lle mae ardaloedd ychwanegol yn cael eu hychwanegu at yr ardal sydd eisoes wedi ei chynnwys yn y prosiect, dros gyfnod o amser. Bydd hyn yn golygu bod y broses yn fwy hydrin, rhywbeth a fydd yn hanfodol o ystyried yr adnodd staff a fydd ei angen i ddatblygu perthnasau gyda phartneriaid cyflenwi yn yr ardaloedd newydd. Dylid blaenoriaethu ardaloedd o'r angen mwyaf, yn unol â diffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o hyn.

Fel rhan o'r uchod, byddem yn argymell:

- Y ffordd fwyaf effeithiol i gyflwyno'r prosiect fyddai drwy bartneriaid cyflenwi a fyddai'n gyfrifol am recriwtio pobl ifanc ar gyfer gweithgareddau fel grwpiau, lle mae'r dewis hynny ar gael; ac

- Ystyried y potensial i rannu'r prosiectau yn ddwy lefel: (1) sesiynau blasu byr a fyddai'n darparu gwasanaeth 'holl gynhwysol' ar gyfer partneriaid cyflenwi (h.y. mae'r holl gostau'n cael eu talu gan y prosiect); a (2) prosiect tymor hirach a fyddai'n galw am ymrwymiad y partner cyflenwi (drwy hyfforddi staff, ac ati).

### Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu system fonitro a gwerthuso newydd cynhwysfawr ar gyfer cynnyrch a chanlyniadau yn seiliedig ar Fodel Dangos Llwyddiant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r system hon gynnwys dewisiadau cyn-cod gyda'r cwestiynau a ddefnyddir ar ffurflenni monitro yn hytrach nag ymatebion agored y gellir eu defnyddio wedyn i fesur yr adborth a ddarparwyd. Dylid ystyried defnyddio'r deunyddiau a gynhyrchwyd ar gyfer y gwaith maes a ymgymerwyd fel rhan o'r gwerthusiad fel sail ar gyfer y system fonitro a gwerthuso honno.

*Am gopi o'r adroddiad llawn cysylltwch â naill ai Roz Owen yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru (rosalind.owen@forestry.gsi.gov.uk neu Gwyneth Davies yn Nhir Coed (gwyneth@tircoed.org.uk).*